Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

Cylchlythyr | Circular

# Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF): Canlyniadau Adolygiad 2022

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Tachwedd 2022 | |
| **Cyfeirnod:** | W22/41HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb | |
| **Cyswllt:** | Enw: | Emma Morris |
| | Ffôn: | 029 2085 9664 |
| | E-bost: | emma.morris@hefcw.ac.uk |

Mae’r cylchlythyr hwn yn adrodd ar ganlyniadau ymgynghori ar gyfer adolygiad 2022 o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF). Mae’n cadarnhau’r fethodoleg ddyrannu a gofynion eraill wedi’u diweddaru ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru a gaiff eu cyflwyno yn 2023/24.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad a'r Cefndir

1. Ailgyflwynwyd cymorth ar gyfer arloesi ac ymgysylltu yng Nghymru yn 2020/21 drwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF). Fe ymgynghorwyd ynghylch y dull dosbarthu, gan gynnwys metrigau a gofynion ar gyfer strategaethau, yn 2019 ac fe gyhoeddwyd y canlyniadau yng Nghylchlythyr W19/37HE. Cytunwyd ar y fethodoleg gyllido gychwynnol am gyfnod o dair blynedd i ddechrau, sef 2020/21 – 2022/23.

2. I adlewyrchu'r newid i fodel mwy aeddfed o ran cymorth ar gyfer arloesi ac ymgysylltu, ym mis Mehefin 2022 fe wnaethom ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar newidiadau posibl i'r fformiwla a'r gofynion ar gyfer dyrannu. Bydd y broses hon yn sicrhau bod Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn parhau i gefnogi argymhellion Adolygiad Reid o ymchwil ac arloesi a gyllidir gan y Llywodraeth yng Nghymru ac amcanion Strategaeth Gorfforaethol CCAUC.

## Proses Adolygiad 2022

3. Ym mis Mehefin 2022 fe gyhoeddodd CCAUC gylchlythyr W22/16HE Ymgynghoriad ar adolygu'r fethodoleg gyllido ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF). Roedd yr adolygiad o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n gyfle i randdeiliaid archwilio'r system gyllido gyfredol o ran ei gallu i greu effaith, hybu sefydlogrwydd swyddogaethau craidd, a gwella perfformiad yn erbyn Mesurau Cenedlaethol CCAUC, sy'n sail i'r fformiwla gyllido. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd, gan mwyaf, yn ymwneud yn uniongyrchol â materion a godwyd naill ai yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf ynghylch Cronfa Ymchwil Arloesi Cymru yn 2019, neu'n ddiweddarach ers ei lansio.

4. Fel rhan o'r broses adolygu, cynhaliwyd gweithdy gyda chynrychiolwyr o bob sefydliad sy'n cael cyllid o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru ym mis Gorffennaf 2022 i drafod methodoleg gyllido gyfredol Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n croesawu'r syniad o gefnogi iechyd y sector ar y cyfan. Roedd y gweithdy hefyd yn gyfle i gael trafodaeth agored ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl rhai newidiadau.

5. Cafodd CCAUC naw ymateb i'r ymgynghoriad ar Gronfa Ymchwil Arloesi Cymru. Daeth y rhain oddi wrth yr holl sefydliadau sy'n cael cyllid ar hyn o bryd. At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn dynodi bod Cronfa Ymchwil Arloesi Cymru'n gweithio'n effeithiol a bod angen iddi fod yn fwy sefydledig o fewn sefydliadau cyn y dylid ystyried diweddariadau mawr i'r fformiwla / gofynion. Fe godwyd rhai materion o ran y data a gynhwysir o fewn metrigau, neu lle gallai metrigau alluogi twf yn well ar draws Mesurau Cenedlaethol CCAUC mewn sefydliadau mwy.

## Canlyniadau'r Ymgynghoriad

6. Fe adolygodd CCAUC yr holl sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad a cheir crynodeb o'r rhain yn **Atodiad A**. Yn dilyn trafod gyda Phwyllgor Ymchwil Cymru CCAUC a chael cymeradwyaeth gan ein Cyngor bydd y newidiadau a'r camau gweithredu canlynol yn cael eu cyflwyno yn 2023/24:

| **Camau Gweithredu** | **Rhagor o wybodaeth** |
|---|---|
| 1. Yn y dyfodol, bydd hi'n ofynnol i strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru:<br>• Ddangos tystiolaeth o gydweithio gyda Cholegau Addysg Bellach, neu bartneriaid eraill, i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant lleol.<br>• Amlygu ble y mae canolfannau rhagoriaeth ymchwil eisoes yn gweithredu fel hybiau arloesi.<br>• Adlewyrchu tirwedd polisi a chyllido'r DU trwy aliniad â dogfennau polisi a strategaethau priodol ar lefel y DU a Chymru. | Atodiad A – Cwestiynau 9 a 3 |
| 2. Cydnabu CCAUC cyn yr ymgynghoriad nad oedd y metrig mewn perthynas â **chwmnïau deilliedig** yn cymell ac yn gwobrwyo'r math yma o weithgarwch yn briodol. Mae'r model cyfredol yn ystyried niferoedd y cwmnïau deilliedig sydd wedi goroesi 3+ blynedd a lefelau incwm ymchwil.<br><br>Dynododd gwaith modelu, oherwydd y nifer fach iawn o gwmnïau deilliedig ar draws y sector, fod mesur gweithgarwch gan ddefnyddio dirprwy ar gyfer maint yn aneffeithiol. Hefyd, gallai cynnydd/gostyngiad bach yn niferoedd y cwmnïau deilliedig arwain at newidiadau gweddol sylweddol i ddyraniadau. Gan hynny, bydd y metrig yn cael ei rannu yn awr i wobrwyo cyfanswm niferoedd y cwmnïau deilliedig ac incwm ar wahân. I bob pwrpas bydd nifer y cwmnïau deilliedig (3+ blynedd) yn cael ei wobrwyo yn seiliedig ar ganlyniad yn unig, ond gan ddefnyddio pwysoliad o x0.5. Bydd y pwysoliad o x0.5 sy'n weddill yn cael ei ychwanegu at y metrig sy'n cefnogi cyfanswm incwm ar y cyfan. Felly bydd y pwysoliad ar gyfer y metrig hwnnw'n cynyddu i x2.5. | Atodiad A – C4 a C5 |
| 3. Gan gydnabod y diffyg cymorth tanategol ychwanegol sydd ar gael i sefydliadau, a'r niferoedd cymharol sefydlog, bydd y metrig **busnesau a gychwynnwyd gan raddedigion** yn cael ei gymhwyso'n gyfan gwbl ar sail canlyniadau yn hytrach na busnesau a gychwynnwyd am bob myfyriwr CagALl. | Atodiad A - C5 |
| 4. Nododd Cyngor CCAUC bwysigrwydd ystyried cynyddu'r gyllideb flynyddol ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i **£25m** pan fo cyllidebau'n caniatáu fel nod mewn egwyddor. Byddai hyn yn gwneud dyraniadau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn y dyfodol yn fwy cyson â lefel y cyllid arloesi ac ymgysylltu y mae sefydliadau yn Lloegr yn ei gael a byddai'n sicrhau nad yw SAUau yng Nghymru'n cael eu rhoi | Atodiad A – C5 |

| Camau Gweithredu | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|
| dan anfantais a'u bod mewn sefyllfa well i gystadlu am incwm allanol. | |
| 5. Bydd y drefn ar gyfer **Cyflwyno Strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru** yn newid i gylch 5 mlynedd a bydd yn cadw'r broses o adolygu a diweddaru'n flynyddol. | Atodiad A – C9 |
| 6. Bydd **fformiwla gyllido Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru** yn cael ei chytuno ar gyfer cyfnod o 3 blynedd o leiaf, ond o bosibl hyd at 5 mlynedd i alluogi proses effeithiol ar gyfer pontio i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. | Atodiad A – C9 |
| 7. Mae dyraniadau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n gwobrwyo ac yn cymell perfformiad. Fodd bynnag, fel modd i gefnogi sefydlogrwydd mae dyraniadau fformiwla'n cael eu gwarchod ar hyn o bryd rhag cwympo fwy na 10% rhwng blynyddoedd. Gall sefydliadau weld cynnydd hyd at 30% hefyd yn seiliedig ar argaeledd arian. Mae gwarchod rhag cwymp o fwy na 10% yn cael blaenoriaeth.<br><br>O ganlyniad i'r newidiadau a gyflwynwyd ar gyfer y cylch hwn o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru, ac i sicrhau sefydlogrwydd gweithgareddau a gefnogir ar hyn o bryd, byddir yn rhoi darpariaeth warchod i sicrhau nad yw'r un sefydliad yn gweld cwymp o fwy na 5% mewn dyraniadau fformiwla yn 2023/24. Gan bod hwn yn dal i fod yn fodel cymell a gwobrwyo, bydd y dull hwn yn cael ei adolygu gan CCAUC wrth i'r fformiwla newydd ymwreiddio. 30% fydd terfyn uchaf cymorth ychwanegol o hyd yn amodol ar argaeledd arian. | |

7. Fel a nodwyd bydd fformiwla Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn cael ei chytuno ar gyfer cyfnod o dair blynedd, gyda'r potensial i gynyddu i bum mlynedd er mwyn sicrhau proses esmwyth ar gyfer pontio i'r CADY. Mae manylion y fformiwla newydd i'w gweld yn **Atodiad B**.

## Amserlen

8. Bydd CCAUC yn cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru i roi cymorth i gyflwyno strategaethau pum mlynedd newydd ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn 2023. Bydd dyraniadau ar gyfer 2023/24 yn cael eu modelu a'u cyhoeddi unwaith y bydd data HEBCI wedi'i ddilysu ar gyfer 2021/22 ar gael.

## Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY)

9. Ar 8 Medi 2022, daeth y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn amlinellu trefniadau i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) newydd, a fydd yn disodli CCAUC, ac a fydd yn gyfrifol am reoleiddio a

chyllido'r rhan fwyaf o ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru sydd o fewn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd y CADY yn weithredol, ac y bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu, erbyn mis Ebrill 2024.

10. Rydym wedi cadarnhau wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn symud ymlaen gydag agweddau ar ein gwaith yr ydym ni'n ystyried eu bod yn dyngedfennol ar gyfer pontio'n esmwyth ac yn effeithiol i'r CADY. Mae ein llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 yn nodi y dylem dybio y gall CCAUC "barhau i weithredu a datblygu ei brosesau cyllido a rheoleiddio yn unol â'i bwerau a'i brosesau presennol".

## Rhagor o wybodaeth / ymatebion i

11. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Morris; emma.morris@hefcw.ac.uk.

## Asesu effaith ein polisïau

12. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi nodi sut y byddai unrhyw newidiadau i Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n effeithio ar:

- Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Safonau'r Gymraeg 2018
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

13. Bydd nodau cyffredinol Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru o ran canllawiau a chanlyniadau'n aros yn ddigyfnewid ers yr Asesiad Effaith diwethaf yn 2020. Bydd Asesiad Effaith CCAUC ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a gymeradwywyd.

14. Bydd yn ofynnol bod holl strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn y dyfodol yn cael asesiad effaith, yn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac yn amlygu sut y maent yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Atodiad A**

## Adolygiad o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2022 - crynodeb o'r ymatebion ac argymhellion

### 1. Dosbarthu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF)

| |
|---|
| **Yn gyffredinol, a ydych chi'n meddwl bod Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi cymell a gwobrwyo perfformiad, yn enwedig twf incwm allanol, wrth gefnogi twf gallu ar draws meysydd arloesi ac ymgysylltu â blaenoriaeth?**<br><br>**A oes agweddau penodol ar y model sydd wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi argymhellion Adolygiad Reid?** |
| Roedd yr holl ymatebion yn dynodi bod Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi cael effaith fawr ar gapasiti gyda thwf sylweddol mewn timau Ymchwil a Datblygu ac yn y gallu i gefnogi busnesau. Mae sefydliadau wedi gallu buddsoddi mewn staff â ffocws ar feysydd nad ydynt yn creu incwm megis Cenhadaeth Ddinesig hefyd. Lle'r oedd rhai ymatebion yn dynodi meysydd o fewn y fformiwla a oedd yn cael eu hystyried yn anffafriol, roedd y sefydliadau hyn yn dal i allu amlygu bod Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi galluogi cyfleoedd cyllido mewnol newydd sylweddol a oedd yn gyson â mwy o gapasiti staff. Ar y cyfan, yn dilyn y buddsoddiad enfawr mewn tyfu capasiti, roedd llawer yn teimlo y byddai'r effaith go iawn yn cael ei gweld mewn ffurflenni HEBCI (Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned) yn y dyfodol. Nododd nifer o ymatebion y byddai cynyddu cyllideb Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i £25m, fel a argymhellwyd gan Reid, yn galluogi effaith fwy arwyddocaol o lawer yng Nghymru.<br><br>**Dim cam gweithredu'n ofynnol**. |

### 2. Grant Adnoddau Ymarferol

| |
|---|
| **O ystyried effaith gadarnhaol y Grant Adnoddau Ymarferol yng Nghymru, a ddylid disgwyl / annog sefydliadau i ystyried arian cyfatebol ar gyfer elfen y Grant Adnoddau Ymarferol?** |
| Roedd y mwyafrif o ymatebion yn dadlau yn erbyn arian cyfatebol gofynnol ar gyfer y grant adnoddau ymarferol. Fodd bynnag, dynododd yr holl ymatebion fod hyn eisoes yn digwydd gyda sefydliadau'n cydnabod y budd a gynigir gan fuddsoddiad uwchlaw'r lefel o £250k. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn ystyried y gallai ffurfioli'r opsiwn hwn ddadsefydlogi a bod yn ymarfer biwrocrataidd diangen.<br><br>**Cam Gweithredu** – ni fydd yn ofynnol yn ffurfiol i sefydliadau yng Nghymru ddarparu arian cyfatebol ar gyfer yr elfen Grant Adnoddau Ymarferol. Bydd trafodaeth ynghylch capasiti'n dal i fod yn rhan safonol o'r Cyfarfodydd Adolygu Ymchwil ac Arloesi blynyddol gyda CCAUC. |

## 3. Canolfannau Arloesi

| |
|---|
| **i) A fyddech yn cefnogi symud i ddatblygu canolfannau arloesi mewn meysydd cydnabyddedig o gryfder ymchwil ac arloesi?** |
| **ii) O ystyried y diffyg cyllid ychwanegol, a ddylai canolfannau gael eu datblygu ar y cyd ar draws sector addysg uwch Cymru?** |
| **iii) Sut y dylid cydgysylltu unrhyw waith posibl i ddatblygu canolfannau? A oes rôl ar gyfer Rwydwaith Arloesi Cymru)?** |
| **iv) Rhowch sylwadau ar unrhyw heriau / cyfleoedd eraill a gyflwynir wrth ddatblygu canolfannau arloesi.** |
| Er bod rhaniad yn yr opsiynau 'cytuno / anghytuno' uniongyrchol ar gyfer creu Canolfannau, roedd yr wybodaeth gyd-destunol yn darparu llawer mwy o dystiolaeth o gytundeb. Nid oedd gan y rhan fwyaf o ymatebion unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r syniad o greu canolfannau. Fodd bynnag, roedd pryder ynghylch eu cylch gwaith o ran canolfannau rhagoriaeth presennol, neu ganolfannau ymchwil / arloesi. Dywedwyd mewn nifer o ymatebion fod canolfannau ar hyn o bryd wedi'u diffinio'n wael a bod angen gwaith pennu cwmpas pellach i egluro eu diben, yn enwedig yng ngoleuni creu Rhwydwaith Arloesi Cymru. Roedd teimlad cyffredinol, pe bai canolfannau'n cael eu creu, y byddai rôl i Rwydwaith Arloesi Cymru o ran adolygu canolfannau cyfredol; amlygu bylchau; darparu argymhellion ar gyfer meysydd sy'n addas ar gyfer cydweithio trwy ganolfannau; ac o bosibl o ran cyd-greu a rheoli. Awgrymodd un ymateb fod creu Rhwydwaith Arloesi Cymru'n golygu bod Cymru wedi symud ymlaen o'r argymhellion ynghylch canolfannau a gyflwynwyd yn adroddiadau Diamond a Reid rai blynyddoedd yn gynharach.<br><br>**Cam Gweithredu** – nid oes angen uniongyrchol i ddatblygu canolfannau arloesi. O ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd yn y sylwadau bydd strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn y dyfodol yn gofyn i sefydliadau amlygu ble y mae eu canolfannau rhagoriaeth presennol eisoes yn gweithredu fel canolfannau arloesi. Gallai trafodaeth bellach rhwng Rhwydwaith Arloesi Cymru a CCAUC ystyried y posibilrwydd o greu rhwydwaith, a pha un a allai fynd mor bell ag ychwanegu gwerth at waith presennol Rhwydwaith Arloesi Cymru. Fel a nodwyd yn y rhan fwyaf o ymatebion byddai hyn yn golygu buddsoddiad pellach gan CCAUC, a hwnnw o bosibl yn sylweddol, nad yw ar gael ar hyn o bryd. |

## 4. Pwysoli gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth sy'n cynhyrchu incwm

| |
|---|
| **Mae model presennol Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, yn unol ag Adolygiad Reid, wedi pwysoli mesurau incwm yn uwch (x2) na mesurau di-incwm (x1). Wrth symud i fodel mwy aeddfed o ddosbarthu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, rydym yn cynnig cynyddu'r pwysoliad mewn un o'r ffyrdd a ganlyn:**<br>• **Model A – mesurau di-incwm wedi'u pwysoli x1; incwm wedi'i bwysoli x3**<br>• **Model B – mesurau di-incwm wedi'u pwysoli x1; incwm wedi'i bwysoli x4** |

| |
|---|
| Roedd y rhan fwyaf o ymatebion (7) o blaid cadw'r model cyfredol sy'n golygu pwysoli'r ddau fetrig incwm x2. Roedd llawer yn cydnabod argymhelliad Reid y dylai Cronfa Ymchwil Arloesi Cymru gymell a gwobrwyo perfformiad, yn enwedig creu incwm. Fodd bynnag, roedd peth consensws bod angen ystyried cryfder y sector cyfan yng Nghymru er mwyn sicrhau cydweithio llwyddiannus yn y dyfodol. Byddai cadw'r model cyfredol yn sicrhau bod sefydliadau llai'n dal i gael lefelau uwch o gyllid o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru ac y gallant gyfrannu'n well at weithgarwch cydweithredol o'r fath. Ystyriwyd fod y pwysoliadau cyfredol yn gwobrwyo gweithgarwch creu incwm mewn ffordd addas hefyd ond nid ar draul gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth nad yw'n cynhyrchu incwm sy'n elfen graidd o strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Cydnabuwyd y gallai newid sylweddol i'r modd y caiff incwm ei bwysoli olygu bod dyraniadau'n gostwng i sefydliadau sydd â ffocws cryf ar Genhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, a gweithgarwch cychwyn busnesau gan raddedigion.<br><br>Fodd bynnag, gan gydnabod nad oedd y metrig cwmnïau deilliedig yn gwobrwyo niferoedd y cwmnïau deilliedig sy'n gysylltiedig ag ymchwil mewn modd priodol mae newid wedi cael ei wneud i'r metrig hwnnw sy'n cael effaith yma (gweler C5 isod). O ganlyniad i'r newidiadau bydd cyllid ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y metrig cyfanswm incwm nad yw'n cael ei normaleiddio. Bydd y metrig hwnnw'n cynyddu yn awr i bwysoliad o x2.5.<br><br>**Cam Gweithredu** – bydd y metrig incwm a gaiff ei normaleiddio yn ôl academyddion CagALl yn dal i fod wedi'i bwysoli yn ôl x2. Yn sgîl cynnwys cyllid ychwanegol a oedd yn cael ei gynnwys yn flaenorol dan gwmnïau deilliedig, bydd y pwysoliad ar gyfer y metrig cyfanswm incwm yn symud i x2.5. |

## 5. Normaleiddio data o fewn model Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

| **i) Beth yw eich barn ar y dulliau presennol o normaleiddio data ar gyfer metrigau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru?**<br><br>**ii) A oes ffyrdd eraill o normaleiddio data y gellid eu hystyried.** |
|---|
| 1. Roedd y mwyafrif o ymatebion (7) yn ystyried bod normaleiddio data'n creu system deg ar gyfer gwobrwyo perfformiad ledled Cymru ni waeth beth fo maint y sefydliad. Fodd bynnag, mae hwn yn faes sy'n achosi pryder i sefydliadau â niferoedd mawr o academyddion neu fyfyrwyr (yn seiliedig ar wahanol fetrigau). Ar hyn o bryd mae 2 fetrig i wobrwyo gweithgarwch cynhyrchu incwm. Caiff y rhain eu pwysoli'n fwyaf uchel, ac maent i) yn gwobrwyo incwm wedi'i normaleiddio yn ôl staff academaidd CagALl sy'n cefnogi canlyniadau ni waeth beth fo'r maint, ond ii) hefyd yn gwobrwyo sefydliadau'n gyfan gwbl yn ôl lefel yr incwm y maent yn ei greu ni waeth beth fo'u maint. Mae hyn yn ymdrin i ryw raddau â'r materion a godwyd ynglŷn â normaleiddio ar gyfer y maes hwn. Yn ychwanegol at hyn, caiff maint yr ymchwil ei wobrwyo trwy fformiwla QR CCAUC hefyd.<br>Fodd bynnag, mae'r metrig ar gyfer busnesau a gychwynnwyd gan raddedigion wedi'i gynnwys unwaith ac yn defnyddio niferoedd y myfyrwyr CagALl fel dirprwy |

ar gyfer graddfa. Nid yw capasiti staff yn y maes hwn yn cael ei gefnogi ar lefel sylweddol gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru o anghenraid (er ein bod yn ymwybodol bod rhai sefydliadau wedi buddsoddi mwy mewn capasiti ar gyfer y maes hwn), ac nid yw busnesau a gychwynnwyd gan raddedigion yn elfen sy'n cael ei gwobrwyo trwy unrhyw gyllid arall gan CCAUC. Felly, mae dadl y gellid gwobrwyo'r metrig hwn ar sail cyfanswm y busnesau a gychwynnwyd gan raddedigion sy'n para am 3+ blynedd dros gyfnod o dair blynedd, ni waeth beth fo maint y sefydliad. Fe wnaed gwaith modelu ac mae'n dynodi na fydd gwobrwyo perfformiad sefydliadol yn gyfan gwbl ar sail canlyniadau busnesau a gychwynnwyd gan raddedigion sy'n para am 3+ blynedd yn dadsefydlogi dyraniadau ar y cyfan.

2. Nododd un ymateb nad oedd Mesur 4 mewn perthynas â chwmnïau deilliedig yn gweithio'n briodol i gymell a gwobrwyo perfformiad. Roedd CCAUC yn ymwybodol o'r broblem hon ac yn bwriadu cyflwyno addasiad i'r fformiwla i wobrwyo sefydliadau'n well fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae'r model gwreiddiol yn gwobrwyo niferoedd y cwmnïau deilliedig sydd wedi goroesi 3+ blynedd a chyfanswm incwm ymchwil. Dynododd gwaith modelu, oherwydd niferoedd bach iawn y cwmnïau deilliedig ar draws y sector, fod mesur gweithgarwch gan ddefnyddio dirprwy ar gyfer maint yn aneffeithiol. Hefyd, gallai cynnydd/gostyngiad bach yn niferoedd y cwmnïau deilliedig arwain at newidiadau gweddol sylweddol i ddyraniadau blynyddol.

   Gan hynny bydd y metrig yn cael ei rannu yn awr i wobrwyo cyfanswm niferoedd y cwmnïau deilliedig (3+ blynedd) ac incwm ar wahân. I bob pwrpas bydd nifer y cwmnïau deilliedig yn cael ei wobrwyo yn seiliedig ar ganlyniad yn unig, ond gan ddefnyddio pwysoliad o x0.5. Bydd y pwysoliad o x0.5 sy'n weddill yn cael ei ychwanegu at y metrig sy'n cefnogi cyfanswm incwm ar y cyfan. Felly bydd y pwysoliad ar gyfer y metrig hwn yn cynyddu i x2.5 (gweler uchod C4).

3. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion mewn gwahanol adrannau at y ffaith mai £25m oedd lefel y cyllid arloesi ac ymgysylltu a argymhellwyd gan Diamond a Reid. Awgrymodd un ymateb a oedd yn dadlau yn erbyn normaleiddio data y dylai CCAUC adolygu fformiwla'r HEIF (Cronfa Arloesi Addysg Uwch) yn Lloegr, sydd hefyd yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. O ystyried bod addysg uwch yng Nghymru wedi'i datganoli, datblygir rhaglenni cyllido megis Cronfa Ymchwil Arloesi Cymru yn seiliedig ar flaenoriaethau ac argymhellion adolygiadau penodol ar gyfer Cymru. Er ein bod yn adolygu mecanweithiau cyllido eraill yn y DU, nid ydym dan orfodaeth i'w hefelychu. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai'r prif fater o bwys yw bod dyraniadau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i sefydliadau yng Nghymru'n sylweddol is na HEIF lle'r oedd y cap a bennwyd yn 2021/22 yn £4.285m. Mae hyn yn peri anfantais i sefydliadau yng Nghymru ac yn ei gwneud yn anodd iddynt gystadlu ar yr un lefel â phrifysgolion Lloegr. O ystyried argymhellion Reid a Diamond, fel rhan o'r adolygiad hwn fe wnaeth CCAUC fodelu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar £25m a rhannu'r ffigyrau hynny gyda'r Cyngor a Phwyllgor Ymchwil Cymru. Roedd y model yn ei gwneud yn glir, gyda chronfa fwy ar y cyfan y byddai dyraniadau SAUau unigol yng Nghymru'n codi i lefelau tebyg i'r rhai sydd ar gael i sefydliadau yn Lloegr. Gan hynny fe gadarnhaodd y Cyngor fod CCAUC yn dal i fod â dyhead i godi Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i £25m yn amodol ar argaeledd cyllid.

| |
|---|
| **Camau Gweithredu:**<br>• Newid i gymell a gwobrwyo Busnesau a Gychwynnwyd gan Raddedigion ar sail canlyniadau yn unig (yn seiliedig ar y ffaith bod maint ymchwil eisoes yn cael ei gefnogi trwy QR, ond nad yw busnesau a gychwynnwyd yn cael eu cefnogi trwy hynny).<br>• Bydd y metrig cwmnïau deilliedig yn cael ei rannu i wobrwyo cwmnïau deilliedig sydd wedi goroesi 3+ blynedd a chyfanswm yr incwm ar wahân trwy'r metrigau presennol.<br>• Fel a gytunwyd yn flaenorol fel nod mewn egwyddor, bydd Cyngor CCAUC yn parhau i ystyried cynyddu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, yn amodol ar gyllid CCAUC ar y cyfan, i £25m cyn gynted â phosibl i sicrhau bod sefydliadau Cymru'n gallu cystadlu ar lefel y DU. |

## 6. Cynnwys cyfraniadau mewn nwyddau/gwasanaethau o fewn model Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

| **A ddylai cyfraniadau mewn nwyddau/gwasanaethau barhau i gael eu cynnwys ym metrigau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru?** |
|---|
| Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid cadw cyfraniadau mewn nwyddau/gwasanaethau o fewn yr elfen cyfanswm cyllid incwm o'r fformiwla. Fodd bynnag, nododd yr holl ymatebion fod gofyniad ar gyfer dull cyson o goladu a chyflwyno gwybodaeth i'r arolwg. Roedd y gwaith gan CCAUC yn y maes hwn yn cael ei gydnabod a bydd gweithdy HEBCI yn cael ei drefnu ar gyfer gaeaf 2022 i drafod mewn mwy o fanylder. Mae hwn hefyd yn faes allweddol o fewn Adolygiad Mawr HESA o HEBCI ac mae canllawiau wedi'u gwella wrthi'n cael eu drafftio gyda mewnbwn uniongyrchol gan CCAUC. Gyda dull cyson roedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n cytuno bod cyfraniadau mewn nwyddau/gwasanaethau'n ffordd bwysig o ddangos gwerth partneriaethau cydweithredol.<br><br>**Cam Gweithredu** – cadw cyfraniadau mewn nwyddau/gwasanaethau o fewn fformiwla gyllido Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. CCAUC i gynnal gweithdy yng ngaeaf 2022 gyda'r sector i gytuno ar ddull cyson i ddechrau o ran gofyniad archwilio. Bydd adrannau nad ydynt yn cyflawni gweithgarwch Ymchwil ac Arloesi ar draws sefydliadau'n cael eu hysbysu ynghylch y broses y cytunwyd arni i gefnogi mwy o gysondeb e.e. cyllid. Bydd CCAUC yn parhau i gefnogi canllawiau gwell trwy gyfarfodydd Bwrdd Adolygu HEBCI. |

## 7. Cynnwys Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd o fewn model Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

| **A ddylai Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd barhau i gael eu cynnwys o fewn metrigau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru o ystyried yr anghyfartaledd o ran mynediad at y cronfeydd hyn ledled Cymru?** |
|---|
| Roedd y mwyafrif (7) o'r ymatebwyr o blaid cadw Cyllid Strwythurol Ewropeaidd o fewn metrig cyfanswm incwm Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Roedd un yn erbyn |

| |
|---|
| hynny, ac roedd gan un bryderon ynghylch cofnodi incwm adfywio yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar y cyfan roedd cytundeb y byddai peidio â chynnwys cyllid strwythurol yn dibrisio pwysigrwydd cyllid Ewropeaidd i'r sector yng Nghymru. O ystyried bod y cwestiwn wedi cael ei ofyn mewn perthynas ag argaeledd incwm i sefydliadau'n seiliedig ar le daearyddol, roedd pryderon hefyd ynghylch cronfeydd lleol newydd megis e.e. Bargeinion Twf a Dinesig, cyllid Ffyniant Bro, a fydd yn amrywio o ran argaeledd a mynediad ledled Cymru. Amlygwyd y gallai tynnu Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd allan arwain at lethr llithrig lle gallai fod angen adolygu pob elfen o incwm yr adroddir arni wrth HEBCI a bod hynny'n arwain at system fiwrocrataidd a chymhleth. Awgrymodd nifer o ymatebion hefyd, er y gall fod gan rai sefydliadau lai o fynediad at gyllid strwythurol, eu bod o bosibl mewn lleoliad gwell yn ddaearyddol i greu cyfleoedd gyda diwydiant / busnesau ar raddfa fawr.<br><br>**Cam Gweithredu** – cadw cyllid strwythurol o fewn y data cyfanswm incwm. |

## 8. Ffynonellau data eraill

| **A ddylid cynnwys y ffynonellau data canlynol fel metrigau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru:** |
|---|
| **i) Nifer y Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth [ffynhonnell: Llywodraeth Cymru / Innovate UK]** |
| **ii) Nifer y Mentrau Cymdeithasol (gweithredol am dair blynedd neu fwy) [ffynhonnell: Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch Tabl 4d]** |
| Dynododd y mwyafrif o ymatebwyr (6) nad oeddent yn teimlo y byddai defnyddio niferoedd y **Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth** yn briodol o fewn fformiwla gyllido Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Roedd un ymatebydd yn ansicr, ac roedd dau o blaid gan bod Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth wedi'u diffinio'n glir ac yn ddull craidd o ymgysylltu â busnesau. Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd yn erbyn eu cynnwys fod incwm Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth eisoes wedi'i gynnwys o fewn fformiwla Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru trwy ddata incwm HEBCI. Roedd pryder y gallai cymell un dull penodol o ymwneud â busnesau anghymell sefydliadau rhag defnyddio dulliau ymyrryd eraill gyda busnesau a allai fod yn fwy priodol e.e. Partneriaethau SMART, KESS (Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth), doethuriaethau diwydiannol, a allai weithio'n well.<br><br>Roedd y mwyafrif o ymatebion yn erbyn cynnwys data **Mentrau Cymdeithasol** (6) yn fformiwla Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, er eu bod wedi nodi gwerth a phwysigrwydd Mentrau Cymdeithasol ym maes Cenhadaeth Ddinesig. Gan hynny, er nad oeddent o blaid ei gynnwys ar hyn o bryd, fe awgrymodd nifer o ymatebion y gellid gwneud gwaith dros gyfnod nesaf Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i sicrhau dull cyson o gasglu data. Byddai hyn yn galluogi adolygiadau o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn y dyfodol i ystyried cynnwys data Mentrau Cymdeithasol. Fel a nododd rhai, mae'r niferoedd yn y maes hwn yn isel iawn ar hyn o bryd ond gallent gael eu cynnwys yn y dyfodol gyda busnesau a gychwynnwyd gan raddedigion. |

Fe bwysleisiodd rhai ymatebion y byddent yn croesawu cynnwys data Cenhadaeth Ddinesig yn fwy cyffredinol e.e. pe gellid gwneud data Tabl 5 yn fwy cadarn. Mae hwn yn opsiwn a ystyriwyd gan CCAUC pan ddatblygwyd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn 2019 ond nid yw'r data ar hyn o bryd yn ddigon i'w ddefnyddio fel ysgogydd ar gyfer cyllid. Mae CCAUC wedi codi'r mater gyda HESA bod data Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd meintiol newydd neu well yn flaenoriaeth i Gymru gan y dylai Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wobrwyo perfformiad yn y maes hwn. Gan hynny mae Ymgysylltiad Dinesig yn un o'r meysydd allweddol o fewn adolygiad HESA a dylai hyn olygu bod data newydd a gwell ar gael cyn yr adolygiad nesaf o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru.

**Cam Gweithredu** – peidio ag ychwanegu'r naill na'r llall o'r ffynonellau data i mewn i'r fformiwla ar hyn o bryd. Trafodaeth bellach a gweithdy CCAUC ar ddata mentrau cymdeithasol gyda golwg ar ailystyried ei gynnwys yn y fformiwla yn yr adolygiad nesaf o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru.

## 9. Strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

**i) Mae strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar hyn o bryd am 3 blynedd a gellir eu diweddaru'n flynyddol i adlewyrchu mentrau newydd a meysydd o ddiddordeb. A ddylai cyfnod y strategaeth aros yn 3 blynedd, neu a ddylid ei gynyddu i 5?**

**ii) Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) yn cael ei sefydlu yn 2023. Mae CCAUC yn cynnig bod strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn rhoi tystiolaeth fanylach o'r gwaith cydweithredol rhwng meysydd addysg uwch ac addysg bellach a wneir i ddiwallu anghenion sgiliau seiliedig ar le.**

**iii) Mae CCAUC yn cynnig bod pob strategaeth yn cael ei diweddaru i adlewyrchu tirwedd polisi a chyllid bresennol y DU drwy aliniad gwell â Strategaeth Arloesi Cymru (sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd), a dogfennau polisi'r DU megis Strategaeth Arloesi'r DU, Strategaeth UKRI, a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU.**

1. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion a gyflwynwyd (6) o blaid newid i gyfnod o 5 mlynedd ar gyfer y strategaethau, ond fe wnaethant nodi bod rhai i adolygiad a diweddariad blynyddol barhau i fod yn rhan o broses Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Byddai hyn yn sicrhau bod strategaethau'n dal i adlewyrchu cyfleoedd a heriau newydd. Dynododd nifer o ymatebion y byddai proses 5 mlynedd yn fwy cyson â strategaethau mewnol, ac ar ben hynny y byddai'n galluogi sefydliadau i gynllunio'n fwy effeithiol a phenodi staff ar sail fwy hirdymor.

   Roedd un sefydliad yn teimlo bod strategaethau'n ddiangen gan bod gan sefydliadau eu strategaethau mewnol eu hunain, er na fyddai'r rhain yn amodol ar gymeradwyaeth gan CCAUC. Roedd yn well gan ddau sefydliad gadw'r cyfnod o 3 blynedd ar gyfer strategaethau gan y byddai hyn yn fwy cyson â'u strategaethau mewnol. I nodi, dywedodd y ddau fod adolygiad blynyddol yn dal i fod yn anghenraid.

**Cam Gweithredu** – Bydd strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n newid i gyfnod treigl o 5 mlynedd ar gyfer strategaethau ond yn cadw'r broses o adolygu a diweddaru'n flynyddol. Bydd fformiwla gyllido Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cael ei chytuno am gyfnod o 3 blynedd o leiaf, ond o bosibl hyd at 5 mlynedd i alluogi proses esmwyth o bontio i swyddogaethau'r CADY.

2. Gwaith cydweithredol rhwng meysydd addysg uwch ac addysg bellach – roedd y rhan fwyaf o sefydliadau o blaid dangos tystiolaeth fwy eglur o'u gwaith gydag AB o ran cydweithio ar sgiliau neu arloesi yn strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Fodd bynnag, nodwyd ar gyfer rhai ymatebwyr a oedd mewn ardaloedd â llai o sefydliadau AB y byddai angen iddynt weithio gyda phartneriaid allanol eraill i gefnogi'r anghenion hyn o ran sgiliau. Felly, er y dylent roi anogaeth i barhau i gydweithio gyda Cholegau AB, dylai strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru adlewyrchu mai dim ond lle mae'n wir mai dyma'r bartneriaeth fwyaf priodol i ddiwallu anghenion o ran sgiliau y dylai hyn fod.

**Cam Gweithredu** – ei gwneud yn ofynnol cynnwys tystiolaeth o fewn strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru o sut y mae sefydliadau'n cydweithio gyda Cholegau AB lleol neu bartneriaid eraill, fel y bo'n briodol, i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant lleol.

3. Aliniad â pholisïau Cymru a'r DU – mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn derbyn ei bod yn hanfodol bod strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n gyson â pholisïau cyfredol, yn anad dim am bod y rhain yn aml wedi'u cysylltu â ffrydiau cyllid yn y dyfodol. Dynododd dau ymateb nad oedd aliniad yn angenrheidiol ac y dylai strategaethau sefydliadol fod yn seiliedig ar flaenoriaethau'r SAU yn unig.

**Cam Gweithredu** – bydd strategaethau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi'u diweddaru'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau amlinellu sut y maent yn gyson â dogfennau polisi a strategaethau diweddaraf y DU a Chymru.

## 10. Safonau'r Gymraeg 2018

| **A ellid newid y cynigion ar gyfer datblygu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, a'i gofynion, i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau andwyol, ar y canlynol:** | • **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br>• **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
|---|---|
| Mae pob ymateb yn dynodi bod Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig trwy'r gwaith Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd sydd wedi canoli sefydliadau'n gadarn o fewn cymunedau lleol. | |

## 11. Effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

| **A ellid newid y cynigion ar gyfer datblygu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, a'i gofynion, i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau andwyol, ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015?** |
| --- |
| Mae'r mwyafrif o ymatebion yn dynodi bod Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, sydd wedi'i bwriadu i hybu twf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, yn ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd un ymateb yn dadlau y gallai newid pwysoliad incwm o fewn y fformiwla gael effaith niweidiol ar greu Cymru gyfartal gan y byddai mwy o ffocws yn cael ei roi ar weithgarwch masnachol, ar draul Cenhadaeth Ddinesig o bosibl. |

## 12. Effaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth

| **A yw datblygiadau arfaethedig Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth?** |
| --- |
| Roedd pob ymateb yn dynodi bod Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn enwedig trwy waith a gefnogir i gyrraedd nodau Cenhadaeth Ddinesig. Nododd dau ymateb, pe bai'r pwysoliad yn cael ei gynyddu ar gyfer metrigau incwm roedd posibilrwydd y byddai sefydliadau'n canolbwyntio'n fwy ar agweddau masnachol ar Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn hytrach na gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth nad yw'n cynhyrchu incwm megis Cenhadaeth Ddinesig. |

**Atodiad B**

**Manylion llawn model Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru o 2023/24 ymlaen**

Yn seiliedig ar ddyraniad o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru ar gyfer y sector o £15,000,000
Cyfanswm grant adnoddau ymarferol o £250k i bob sefydliad (9x£250k) = £2,250,000
Gweddill y swm o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru i gael ei ddyrannu i'r sector yn ôl fformiwla = £12,750,000

| Enw'r mesur | Cyfanswm y cyllid sydd ar gael i'r sector ar gyfer y mesur hwn | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 1. Cyfanswm incwm Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch fesul aelod o staff academaidd cyfwerth ag amser llawn | Pwysoliad = 2<br><br>12,750,000*(2/7)<br><br>=£3,642,857 | Mae cyfanswm incwm Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch ar gyfer blwyddyn benodol yn cynnwys y canlynol:<br><br>1. Incwm o ymchwil gydweithredol<br>2. Incwm ymchwil dan gontract<br>3. Incwm contractau ymgynghoriaeth<br>4. Cyfanswm refeniw addysg broffesiynol barhaus / addysg barhaus<br>5. Cyfanswm incwm cyfleusterau a chyfarpar<br>6. Cyfanswm incwm adfywio a datblygu<br>7. Cyfanswm refeniw o eiddo deallusol<br><br>Mae'r uchod yn cael eu crynhoi ar gyfer pob blwyddyn i roi cyfanswm incwm Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch ac yn cael eu rhannu â'r staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y flwyddyn honno.<br>Mae hyn yn creu gwerth "cyfanswm incwm Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn" ar gyfer pob un o'r tair blynedd.<br><br>Yna, cyfrifir cyfartaledd pwysedig y tri ffigwr hyn, gyda phwysoliad o 2:3:5 i bob blwyddyn (h.y. mae'r flwyddyn ddiweddaraf wedi'i phwysoli'n fwy)<br><br>Yna, rhennir y cyfartaledd pwysedig hwn ar gyfer y darparwr addysg uwch â swm y cyfartaleddau pwysedig ar draws y sector (h.y. i roi cyfran). Yna, caiff y gyfran hon ei |

| Enw'r mesur | Cyfanswm y cyllid sydd ar gael i'r sector ar gyfer y mesur hwn | Disgrifiad |
|---|---|---|
| | | lluosi â chyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y mesur, i gael swm dyraniad terfynol y fformiwla. |
| 2. Cyfanswm incwm Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch | Pwysoliad = 2.5<br><br>12,750,000*(2.5/7)<br><br>=£4,553,571 | Mae hyn yn debyg i'r mesur cyntaf, heblaw nad yw cyfanswm yr incwm Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch yn cael ei rannu â'r staff cyfwerth ag amser llawn. Caiff y ffigwr cyfanswm incwm ar gyfer pob un o'r tair blynedd ei gyfrifo o swm y cydrannau a enwir uchod. Caiff y mesur hwn ei bwysoli x2.5.<br><br>Proses fel yr uchod. |
| 3. Cyfanswm diwrnodau datblygiad proffesiynol parhaus / addysg barhaus i ddysgwyr fesul aelod o staff academaidd cyfwerth ag amser llawn | Pwysoliad = 1<br><br>12,750,000*(1/7)<br><br>=£1,821,429 | Rhennir cyfanswm y diwrnodau datblygiad proffesiynol parhaus / addysg barhaus i ddysgwyr â staff academaidd cyfwerth ag amser llawn bob blwyddyn i roi gwerth am bob blwyddyn.<br><br>Proses fel yr uchod. |
| 4. Cyfanswm yr incwm ymchwil yn ôl cyfanswm y cwmnïau deilliedig (sy'n eiddo i ddarparwyr addysg uwch a heb fod yn eiddo i ddarparwyr addysg uwch) sy'n dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi o leiaf tair blynedd | Pwysoliad = 0.5<br><br>12,750,000*(0.5/7)<br><br>=£910,714 | Wedi'i ddyrannu yn seiliedig ar nifer gwirioneddol y cwmnïau deilliedig sydd wedi goroesi o leiaf 3 blynedd (sy'n eiddo i ddarparwyr addysg uwch a heb fod yn eiddo i ddarparwyr addysg uwch).<br><br>Proses fel yr uchod. |

| Enw'r mesur | Cyfanswm y cyllid sydd ar gael i'r sector ar gyfer y mesur hwn | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 5. Busnesau a gychwynnwyd gan raddedigion sy'n dal yn weithredol ar ôl tair blynedd, wedi'u huwchraddio gan fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn | Pwysoliad = 1<br><br>12,750,000*(1/7)<br><br>=£1,821,429 | Wedi'i ddyrannu yn seiliedig ar nifer gwirioneddol y busnesau a gychwynnwyd gan raddedigion sy'n dal yn weithredol ar ôl 3 blynedd.<br><br>Proses fel yr uchod. |

**Nodiadau:**

- Swm y fformiwla wedi'i gyfyngu i gwymp o 5% neu gynnydd o 30% o'i gymharu â dyraniad fformiwla'r llynedd ym mhob sefydliad, yn amodol ar argaeledd arian. I nodi, mae gwarchod rhag gostwng dim mwy na 5% yn cael blaenoriaeth yn flynyddol. Bydd lefel y gostyngiad yn cael ei adolygu mewn blynyddoedd yn y dyfodol.
- Pe bai'r terfyn hwn yn cael ei gyrraedd, bydd y dyraniad fformiwla ar gyfer y sefydliad hwnnw yn cael ei gapio ar y terfyn a bydd y gwarged neu'r diffyg cyllid sy'n deillio o hynny'n cael ei ddosbarthu'n gymesur ar draws y sefydliadau sy'n weddill.
- Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn defnyddio % myfyrwyr y Brifysgol Agored yn y DU sy'n hanu o Gymru fel dirprwy ar gyfer maint ac wedi'i gymhwyso i gyfansymiau'r Brifysgol Agored yn y DU ar gyfer staff a data Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch
- Y pwysoliadau a roddwyd i fesurau ar gyfer y tair blynedd ddiweddaraf o ddata Rhyngweithio Busnes a Chymuned Addysg Uwch yw 2-3-5
- Nid yw cyfanswm y staff academaidd yn cynnwys staff ar gontractau annodweddiadol
- £400k yw'r trothwy dyrannu isaf, £4m yw'r uchaf. Byddai'r rhain yn cael eu hadolygu pe bai cyfanswm Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'n cael ei gynyddu'n sylweddol.